**ELL 06-02(mins)**

**Cofnodion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Dyddiad:** 20 Mawrth 2002

**Amser:** 1.30pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn bresennol:**

**Aelodau**

| | | |
|---|---|---|
| Gareth Jones, Cadeirydd | Plaid Cymru | Conwy |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Mick Bates | Democratiaid Rhyddfrydol | Sir Drefaldwyn |
| Cynog Dafis | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jane Davidson, Gweinidog Cynulliad | Llafur | Pontypridd |
| Janice Gregory | Llafur | Ogwr |
| Helen Mary Jones | Plaid Cymru | Llanelli |
| Huw Lewis | Llafur | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwyr | Canol De Cymru |
| Alun Pugh | Llafur | Gorllewin Clwyd |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc |
| Stephen Thomas | Dirprwy Glerc |

**Ymddiheuriadau**

Pauline Jarman

**Dirprwyon**

Helen Mary Jones ar ran Pauline Jarman

**Swyddogion**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Richard Davies | Cyfarwyddwr, Yr Adran Addysg a Hyfforddiant |
| Derek Adams | Pennaeth, Yr Is-adran Addysg Uwch |
| Keith Davies | Pennaeth, Yr Is-adran Safonau a Pherfformiad |
| Tony Widdrington | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| **Hefyd yn bresennol:** | |
| Catrin Redknap | Ymgynghorydd arbenigol y Pwyllgor ar yr iaith Gymraeg mewn Addysg |

**Cyflwynwyr:**

**Yn bresennol:**

***Ar ran ELWa-CCAUC***

| | |
|---|---|
| Steve Martin | Prif Weithredwr |
| Yr Athro Phil Gummett | Cyfarwyddwr Addysg Uwch |

***Ar ran ESTYN***

| | |
|---|---|
| Susan Lewis | Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| Liz Kidd | Pennaeth Addysg a Hyfforddiant Ôl-16eg |
| Gareth Adams | Yn rheoli gwaith AEM AALlau |

***Ar ran y Consortia Cymraeg i Oedolion***

| | |
|---|---|
| Helen Prosser | Prifysgol Caerdydd |
| Cennard Davies | Prifysgol Morgannwg |

***Hefyd***

| | |
|---|---|
| Dr Cen Williams | Prifysgol Cymru |

**Datganiadau o Fuddiant**

| | |
|---|---|
| Cynog Dafis | Athro Cofrestredig; ei wraig yn Athrawes Gofrestredig |
| Jane Davidson | Athrawes Gofrestredig; ei gwr yn ddarlithydd coleg ac yn aelod o Weithrediaeth NATFHE |
| Gareth Jones | Athro Cofrestredig; Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Huw Lewis | Athro Cofrestredig |
| Mick Bates | Athro Cymwysedig, aelod o Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru; ei wraig yn Brifathrawes, yn Arolygydd Ysgolion, yn aelod o bwyllgorau ACCAC ac Estyn |
| Lorraine Barrett | Llywodraethwr ysgol |
| Alun Pugh | Ei wraig yn ddarlithydd coleg |

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

1. Eglurodd Cynog Dafis ei fod, yn sgîl y newidiadau diweddar ym mhortffolios aelodau Plaid Cymru, yn dymuno sefyll i lawr o'i swydd fel Cadeirydd, a hynny ar unwaith. Gofynnodd i'r Aelodau a oeddynt yn cytuno i Gareth Jones gymryd y Gadair ar sail anffurfiol yn y cyfarfod hwn. Câi penodiad parhaol Gareth Jones fel Cadeirydd ei gadarnhau yn y Cyfarfod Llawn ar 21ain Mawrth. Cytunodd yr Aelodau i'r cais.
2. Cymerodd Gareth Jones y Gadair. Diolchodd i'r aelodau am yr anrhydedd o gael Cadeirio'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes a thalodd deyrnged i'r gwaith a wnaed gan Cynog Dafis yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 a'i olynydd, y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes.
3. Croesawodd y Cadeirydd newydd Helen Mary Jones i'w chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor, fel dirprwy ar ran Pauline Jarman. Fel Gweinidog newydd yr Wrthblaid dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, byddai Helen Mary Jones yn aelod parhaol o'r Pwyllgor ar ôl gwyliau'r Pasg. Diolchodd y Cadeirydd i Pauline Jarman am ei gwasanaeth i'r Pwyllgor yn y gorffennol.
4. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau newydd o fuddiant.

**Eitem Un: Adroddiad y Gweinidog**

***Papur: ELL 06-02(p.1)***

1. Llongyfarchodd y Gweinidog Gareth Jones ar gael ei benodi'n Gadeirydd, croesawodd Helen Mary Jones i'r Pwyllgor a diolchodd i Cynog Dafis am ei wasanaeth fel Cadeirydd.
2. Tynnodd y Gweinidog sylw at y pwyntiau canlynol yn ei hadroddiad ysgrifenedig:

- **Ymgyrch Cymunedau'r Meysydd Glo** – nodai'r adroddiad ysgrifenedig ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r ymgyrch. Fe'i nodweddwyd gan ddull gweithredu cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad o gydweithredu er mwyn defnyddio adnoddau'n effeithiol, yr agenda ehangu cyfranogiad a gwella sgiliau. Y tebygrwydd bellach oedd na fyddai casgliadau terfynol yr adroddiad yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth tan fis Gorffennaf.
- **Ymweliadau â Gwlad y Basg a Chiwba** – roedd y Gweinidog wedi'i phlesio gan ymweliad diweddar Gweinidog Addysg Gwlad y Basg, nid leiaf oherwydd y cyfle a roddai i drafod materion sy'n ymwneud ag Addysg Cyfrwng Cymraeg. Roedd y Basgiaid yn awyddus i lofnodi memorandwm dealltwriaeth gyda'r Cynulliad a byddai'r Gweinidog yn edrych yn fanwl ar rinweddau hynny yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Un maes allweddol lle gallai'r Cynulliad ddysgu oddi wrth y Basgwyr oedd yng nghyswllt galluogi staff dysgu i ddod yn rhugl yn ddwyieithog. Dywedodd y Gweinidog fod rhai mentrau penodol eisoes wedi codi o ganlyniad i'r ymweliad â Chiwba. Er enghraifft, roedd Prifysgol Abertawe wedi sicrhau cyllid i ddod ag academyddion o Giwba yma ar ymweliad am gyfnodau o hyd at flwyddyn, tra'r oedd Coleg Celf a Drama Cymru yn ystyried llofnodi Memorandwm Dealltwriaeth gyda'r Sefydliad Cerddoriaeth yn Havana. Roedd y Coleg Celf a Drama hefyd yn ymchwilio, ac y cyd â'r Cyngor Prydeinig, i'r posibilrwydd o gymryd rhan yn nathliadau Prydain-Ciwba sy'n cael eu cynllunio ar gyfer Hydref-Tachwedd eleni.
- **Llythyr Fforwm** – tynnodd y Gweinidog sylw at y ffaith fod cyfran y myfyrwyr yn y Sector Addysg Bellach yng Nghymru yn uwch nag yn Lloegr. Roedd nifer y gwobrau Beacon a enillwyd gan ein Sefydliadau Addysg Bellach ar draws ystod enfawr o bynciau yn amlygu perfformiad rhagorol y Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru.
- **Corff Adolygu Athrawon Ysgol** – rhoddodd y Gweinidog dystiolaeth i'r corff hwn ym mis Chwefror. Roedd diddordeb arbennig gan y Corff yn ffocws Llywodraeth y Cynulliad ar sicrhau bod TGCh yn cael ei chyflwyno yn yr ysgolion.
- **Rheoli Perfformiad** – roedd manylion yr amserlen i ddarparu hyfforddiant ar gyfer a chyflwyno trefniadau rheoli perfformiad wedi eu cyhoeddi ar 7 Mawrth. Roedd y Gweinidog wedi cytuno hefyd i amserlen ddiwygiedig ar gyfer cyflwyno'r trefniadau newydd eu hunain. Fodd bynnag, roedd yr amserlen o ran cwblhau'r cylch cyntaf o adolygiadau rheoli perfformiad i athrawon dosbarth yn dal i sefyll; roedd disgwyl i bob ysgol gynhyrchu'r cylch cyntaf o werthusiadau erbyn Hydref 2004

1. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- **Ymgyrch Cymunedau'r Meysydd Glo** – roedd yr Aelodau’n pryderu ynglyn â'r diffyg ymateb "di-fwlch" i'r ymgyrch a pha un y llwyddid i gadw at y dyddiad cau i ymatebion, sef Gorffennaf. Ymatebodd y Gweinidog drwy ddweud bod y gwaith yn cael ei ystyried mewn ffordd ddi-fwlch a bod yr ymgyrch hon yn cynrychioli ymgais gychwynnol i fynd i'r afael â maes hynod bwysig. Roedd llawer

iawn o waith wedi cael ei wneud i wella perfformiad ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig ac atgoffodd y Pwyllgor fod y fformiwla CGAH wedi cael ei haddasu gyda hyn mewn golwg.

- **Cymorth i Fyfyrwyr** – mynegwyd pryder gan yr Aelodau ynglyn â datganiad diweddar gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr nad yw cymorth i fyfyrwyr yn uchel ar restr blaenoriaethau llywodraeth y DU. Atgoffodd y Gweinidog y Pwyllgor o'r camau a gymerwyd ganddi yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Rees ac Adolygiad Llywodraeth y DU.

- **Ffïoedd hyfforddi** – gofynnwyd i'r Gweinidog gadarnhau safbwynt Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â ffïoedd hyfforddi a delir ymlaen llaw. Ailadroddodd ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i annog cynifer â phosibl o bobl i mewn i ddysgu, ond dywedodd y byddai'n astudio canlyniad adolygiad Llywodraeth y DU o ffïoedd hyfforddi. Atgoffodd y Gweinidog yr Aelodau fod y trothwy cyflog ar gyfer talu ffïoedd hyfforddi ar y diwedd yn £30,000 y flwyddyn.

- **Consortia Cymunedol Addysg a Hyfforddiant (CCAH)** – gofynnodd yr Aelodau am ddadansoddiad trylwyr o'r gwaith a wnaed hyd yma gan y CCAH. Dywedodd y Gweinidog fod y CCAH yn gweithio'n dda ac y byddai'n rhoi adroddiad i'r Pwyllgor ar y mater hwn maes o law.

- **Ymweliad Gweinidog Addysg Gwlad y Basg** – roedd yr Aelodau yn falch o weld bod cysylltiadau rhyngwladol yn cael eu datblygu a gofynasant i'r Gweinidog pa faterion y byddai'r Memorandwm Dealltwriaeth arfaethedig yn eu cwmpasu. Atebodd y Gweinidog ei bod yn gobeithio canolbwyntio yn y memorandwm ar feysydd lle gallai Cymru ddysgu o brofiad Gwlad y Basg.

- **Llythyr Fforwm** – roedd yr Aelodau yn pryderu ynglyn â thâl ac amodau yn y sector AB, yn enwedig y dylent fod yn gystadleuol er mwyn osgoi symud gormodol o'r sector AB i mewn i ysgolion. Roedd angen rhoi sylw hefyd i’r argraffiadau ynglyn â thâl ac amodau cydradd rhwng darlithwyr AB ac athrawon ysgol. Atebodd y Gweinidog fod y sector AB yn faes blaenoriaeth i'r dyfodol o ran cyllid a'r adolygiad cynhwysfawr o wariant. Dylai Cymru wneud yn fawr o'i sector AB bach a llwyddiannus. O ran cydraddoldeb rhwng darlithwyr AB ac athrawon ysgol, dywedodd y gweinidog y byddai'n adolygu pob agwedd o'r mater hwn, gan gynnwys rhoi sylw i faterion megis cyfle cyfartal, rheoli a chyflwyno.

- **Corff Adolygu Athrawon Ysgol** – addawodd y Gweinidog ddod â chanlyniadau'r gynhadledd a gynhaliwyd y llynedd ar ddadrithiad ymysg disgyblion gerbron y Pwyllgor, cyn gynted â phosibl ar ôl gwyliau'r Pasg. Mewn ymateb i gwestiwn yn gofyn a oedd holl ysgolion Cymru wedi eu cysylltu â'r Rhyngrwyd ac a oes ganddynt fyrddau gwyn digidol, dywedodd y Gweinidog fod y targedau o safbwynt TGCh wedi eu cyflawni a bod cyllid ar gyfer byrddau gwyn wedi ei ddyrannu i ysgolion.

- **Profion i blant 11 oed** – gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd yn dal yn bolisi gan y Llywodraeth i brofi plant 11 oed. Atebodd fod y trefniadau profi yn angenrheidiol i ddarparu'r sylfaen dystiolaeth er mwyn datblygu polisi sydd o'r pwys mwyaf i hyfforddwyr rhwng CA2 a CA2 ynghyd â safonau uwch ar draws CA3 yn ei gyfanrwydd.
- **Tâl ac amodau athrawon** – ategodd sawl Aelod bryderon y Prifathrawon ynglyn ag effaith cyllido'r taliadau trothwy ar gyllidebau ysgolion. Gofynnodd yr Aelodau i'r Gweinidog a oedd ganddi unrhyw gynlluniau i wneud taliadau ychwanegol eleni ac a ddylai ysgrifennu at y Cyfarwyddwyr Addysg yn rhoi sicrwydd iddynt ynglyn â'r sefyllfa. Cytunodd y Gweinidog fod yna lawer o ddryswch ynglyn â'r mater hwn. Atgoffodd y Gweinidog y Pwyllgor o'r cynnydd o 7% yng nghyllidebau llywodraeth leol, mewn termau real, dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Esboniodd y Gweinidog fod cyllid ar gyfer costau ychwanegol y taliadau trothwy wedi'i gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2002-03.

**Eitem Dau: Ymateb y Cyngor AU – ELWa (CCAUC) i adroddiad y pwyllgor ar yr adolygiad polisi o addysg uwch**

***Papur: ELL 06-02(p.2)***

2.1 Llongyfarchodd Steve Martin y Cadeirydd ar ei benodiad ac ymddiheurodd nad oedd wedi gallu cynhyrchu fersiwn Gymraeg o'i dystiolaeth ysgrifenedig mewn pryd ar gyfer y cyfarfod. Cadarnhaodd y byddai fersiwn Gymraeg yn cael ei chyflwyno i'r Clerc o fewn wythnos.

2.2 O ran ymateb cyffredinol CCAUC, dywedodd Steve Martin eu bod yn mawr groesawu adroddiad y Pwyllgor a datganiad y Gweinidog am strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer addysg uwch. Roedd y Cyngor yn croesawu'n arbennig y ffaith fod y dogfennau'n cydnabod cryfderau'r sector AU yng Nghymru a'i bwysigrwydd i lwyddiant Cymru i'r dyfodol. Croesawid hefyd eglurder y weledigaeth a oedd wedi ei chynnwys yn y ddwy ddogfen, ynghyd â'r targedau clir a oedd wedi eu cynnwys. Byddai'r Cyngor yn awr yn bwrw iddi i weithio ar gynllun manwl i roi'r strategaeth ar waith.

2.3 Tynnodd yr Athro Phil Gummett sylw at y materion holl-bwysig canlynol fel rhai y mae angen eu trafod ymhellach:

- Goblygiadau sefylla ariannol wan y sector AU drwyddo draw yng Nghymru i flynyddoedd cynnar y strategaeth. Roedd chwech o'r tri sefydliad AU ar ddeg yng Nghymru wedi cofnodi diffyg gweithredol ym mlwyddyn ariannol 2000-1;
- Mewn perthynas â chynllunio'r gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2003-4 a thu hwnt, yr angen am hyblygrwydd wrth ymdrin â chyflawni'r deilliannau yn llawn;
- Yr angen am ddadansoddi pellach i sefydlu pa mor fuan ac i ba raddau y gellir gwneud arbedion gweinyddol;
- Yr angen am hyblygrwydd ynglyn â defnyddio cyllid ailstrwythuro i gynnal datblygiadau o fewn sefydliadau unigol lle mae'r achos busnes yn gryf iawn;
- Yr angen i drafod canlyniadau targed yn fanwl er mwyn datblygu proffiliau realistig i'w cyflawni;
- Faint o le sydd yna i fod yn hyblyg o ran y cyllid sydd ar gael i gefnogi datblygiadau strwythurol gwirionedd fawr, a allai amrywio o flwyddyn i flwyddyn;
- Ystyried goblygiadau'r strategaeth o ran staffio a phwerau CCAUC.

2.4 Wrth gloi dywedodd Steve Martin ei fod wrth ei fodd fod Llywodraeth y Cynulliad yn cryfhau'r Cyngor hyd at ei lawn nerth, yn dilyn penodiad diweddar yr Athro Roger Williams fel Cadeirydd.

2.5 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- **Cydweithredu rhwng sefydliadau AU** – dywedodd CCAUC fod adolygiad y Pwyllgor a'r adroddiad dilynol wedi ysgogi mwy o gydweithio a thrafod rhwng sefydliadau AU yng Nghymru.
- **Rôl Prifysgol Cymru** – argymhellai'r adroddiad fod CCAUC ac Addysg Uwch Cymru yn cydweithio â'i gilydd, er mwyn adolygu strwythur Prifysgol Cymru yn feirniadol. Dywedodd Steve Martin na fyddai'n briodol i'r Cyngor leisio barn am rôl Prifysgol Cymru, fel y cyfryw, ond fod ganddo rôl i annog cael gwared ag unrhyw rwystrau (boed y rheini'n ymarferol neu'n seicolegol) sy'n llestair rhag sicrhau lefel uwch o gydweithredu cyson a pherfformiad yn y gyfundrefn addysg uwch, drwyddi draw, yng Nghymru. I'r perwyl hwnnw, roedd yn croesawu'r adolygiad yr oedd Brifysgol ei hun wedi gofyn i Syr David Williams ei gynnal. Credai Steve Martin fod yna ewyllys yn y sector, oddi mewn a thu allan i Brifysgol Cymru, o blaid newid a fyddai'n hwyluso llawer iawn mwy o gydweithio, perfformiad ac

effeithlonrwydd.

- **Rôl strategol fwy rhagweithiol i CCAUC** – o ran mabwysiadu rôl fwy strategol i'r Cyngor, dywedodd Steve Martin mai'r peth pwysicaf oedd i CCAUC weithio gyda sefydliadau er mwyn cyflawni'r targedau sydd wedi'u gosod i'r sector. Cytunai Steve Martin fod angen i'r Cyngor fabwysiadu rôl fwy rhagweithiol, yn gweithio'n agos gyda sefydliadau, ond, er mwyn cyflawni'r rôl hon yn effeithiol, dywedodd y byddai'n rhaid cynyddu staff y Cyngor.
- **Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd** (ESF) – mewn ymateb i gwestiwn pa un a oedd yna rôl i ESF i gynorthwyo'r broses newid, atebodd Steve Martin fod sefydliadau AU eisoes yn chwilio am ffyrdd o fanteisio i'r eithaf ar ESF; roedd CCAUC a'r Cyngor Cenedlaethol wedi sefydlu tasglu ar y cyd er mwyn gallu cael y gorau allan o adnoddau ESF.
- **Ehangu mynediad** – roedd diddordeb gan yr Aelodau yn rôl cyd grwp ymgynghorol AU a'r Cyngor Cenedlaethol, a sefydlwyd i dywys yr agendâu ehangu mynediad a dilyniant di-fwlch yn eu blaen. Y dasg gyntaf oedd i'r naill Gyngor a'r llall gymeradwyo rhaglen fanwl ar gyfer y grwp ymgynghorol. Byddid yn rhoi adroddiad chwarterol ar hynt y grwp, er enghraifft yng nghylchlythyron y Cynghorau.
- **Cost Uno Sefydliadau** – mewn ymateb i gwestiwn ynglyn â chost uno sefydliadau Addysg Uwch, eglurodd yr Athro Gummett y gallai costau nodweddiadol o'r fath gynnwys pecynnau diswyddo ac adleoli offer.
- **Tâl cyfartal yn y sector AU** – mynegwyd pryder gan yr Aelodau ynglyn â'r gwahaniaeth amlwg rhwng cyflogau dynion a menywod sy'n gwneud swyddi tebyg i'w gilydd yn y sector AU. Derbyniai cynrychiolwyr CCAUC nad oedd y sefyllfa bresennol yr hyn y byddid yn ei ddymuno a dywedasant eu bod yn mynd ar drywydd y mater hwn gyda'r sector AU. Ychwanegodd y Gweinidog fod cyfle a chyflogau cyfartal yn uchel ar ei hagenda a'i bod yn disgwyl i bob sefydliad Addysg Uwch fynd i'r afael â'r materion hyn.

2.6 Diolchodd y Gweinidog i CCAUC am ei ymateb i adroddiad y Pwyllgor ac i strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Gofynnodd i'w gynrychiolwyr ystyried y cyfleoedd swyddogaethol, daearyddol a gweinyddol i gydweithredu, ac yn enwedig y cyfleoedd i ddatblygu cynigion cydweithredu cryf rhwng y sectorau AU ac AB yng Nghymru.

2.7 Diolchodd y Cadeirydd i Steve Martin a'r Athro Gummett am eu cyfraniad cadarnhaol ac edrychai ymlaen at gydweithredu yn y dyfodol.

**Eitem Tri: Ystyried Adroddiad Blynyddol Estyn**

1. Llongyfarchodd y Cadeirydd Susan Lewis ar gael ei phenodi'n Brif Arolygydd am ail dymor a gwahoddodd hi i amlinellu'r materion allweddol yn adroddiad blynyddol Estyn.
2. Cyflwynodd Susan Lewis yr adroddiad. O ran y cynnydd a wnaed, roedd y prif feysydd fel a ganlyn:

- Roedd safonau ac ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru wedi gwella eto yn ystod 2000-01;
- I blant dan 5 roedd y darlun yn dda ac yn gwella;
- Roedd yna safonau gwell mewn ysgolion cynradd ac uwchradd;
- Mewn addysg bellach, bu cynnydd mawr yn y gwaith sydd â nodweddion eithriadol yn perthyn iddo;
- Roedd y safonau ar gyrsiau oedolion a chymunedol yn dda yn gyffredinol;
- Roedd llawer o'r hyfforddeion sydd ar gynlluniau hyfforddiant yn y gwaith yn gwneud cyfraniad effeithiol yn y gweithle;
- Roedd ansawdd y myfyrwyr ar gyrsiau hyfforddi athrawon yn dal i fod yn uchel;
- Roedd yna fwy o bwyslais ar sgiliau allweddol dysgwyr ym mhob sector o addysg a hyfforddiant;

- Roedd cwmnïau gyrfaoedd yn cynnig rhaglenni da o weithgareddau cyfarwyddyd;
- Roedd tua 60% o'r addysgu a'r hyfforddi ym mhob sector yn dda neu'n dda iawn, gyda 35% yn foddhaol;
- Roedd mwy o ysgolion uwchradd yn cynnig cwricwlwm mwy eang i ddisgyblion pymtheg ac un ar bymtheg oed;
- Roedd nifer y cyrsiau addysg bellach wedi ehangu;
- Yn gyffredinol roedd gan athrawon a hyfforddwyr gymwysterau da ac roeddynt yn brofiadol;
- Roedd llawer o'r adeiladau lle darperir addysg a hyfforddiant o ansawdd dda; ac
- Roedd gan lawer o sectorau addysg adnoddau TGCh da.

1. Fodd bynnag, roedd yna feysydd o hyd lle'r oedd angen gwneud gwelliannau. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Câi 5% o'r addysgu ei ystyried yn anfoddhaol;
- Absenoliaeth – ar ddiwrnod nodweddiadol, roedd tua 3000 o ddisgyblion yn dewis peidio â mynd i'r ysgol;
- Roedd angen ymgorffori cyfleoedd i ddysgwyr wella eu sgiliau allweddol o fewn cyrsiau yn fwy effeithiol nag a wneir ar hyn o bryd;
- Mewn ysgolion cynradd, nid oedd disgyblion yn gyffredinol yn gwybod am yr amrywiaeth mewn cymdeithas ac nid oedd llawer o ysgolion uwchradd yn gwneud digon i hyrwyddo datblygiad ysbrydol disgyblion;
- Mewn rhai ysgolion cynradd roeddid yn canolbwyntio gormod ar y pynciau craidd ar draul gwaith mewn celf, cerddoriaeth, y dyniaethau a dylunio a thechnoleg;
- Roedd angen i sefydliadau addysg bellach ymateb i'r nifer cynyddol o ddisgyblion sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol uwchradd;
- Boddhaol oedd arweinyddiaeth a rheolaeth ysgolion yn gyffredinol, yn hytrach na da neu dda iawn;
- Yn gyffredinol roedd Awdurdodau Addysg Lleol yn rheoli eu hunain yn effeithiol, ond erbyn hyn roeddynt yn wynebu'r her o dargedu rhagor o adnoddau at ysgolion lle nad oedd disgyblion yn gwneud digon o gynnydd;
- Roedd yna brinder athrawon mewn mannau yng Nghymru o hyd ac roedd sawl ysgol gynradd wedi ei chael hi'n anodd recriwtio athro cyflenwi yn lle athro a oedd yn absennol am fis neu fwy;
- Roedd yna rai ysgolion cynradd a sawl ysgol uwchradd o hyd lle'r oedd ansawdd yr adeiladau yn anfoddhaol.

1. I grynhoi, dywedodd Susan Lewis y byddai ar Gymru o hyd angen arweinwyr gyda gweledigaeth, rheolwyr i gynllunio a siarad o blaid newidiadau, athrawon ymroddgar a medrus, a dysgwyr sy'n ymrwymo i wella eu hunain ac i greu gwell dyfodol i Gymru a'i phobl.
2. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd yna unrhyw dystiolaeth fod gwersi gwyddonol yn cael eu seilio ar **gredoau crefyddol** yn hytrach na gwybodaeth wyddonol. Atebodd y Prif Arolygydd nad oedd unrhyw dystiolaeth fod hyn yn digwydd yng Nghymru.
- O ran y ddarpariaeth **TGCh mewn ysgolion**, dywedodd y Prif Arolygydd nad oedd yn datblygu cystal â meysydd eraill. Gallai nifer o ffactorau effeithio ar y defnydd o TGCh wrth addysgu a dysgu – yn eu mysg roedd diffyg offer, safon yr offer a'r hyn y mae'n medru ei wneud, diffyg cymorth technegol a diffyg hyder a medr ymysg yr athrawon sy'n ei ddefnyddio.
- Mewn ymateb i gwestiwn pa un y dylai **sgiliau teipio** gael eu dysgu yn yr ysgol, dywedodd y Prif Arolygydd fod yna ryw rinwedd yn hynny ac y byddai'n ceisio annog ysgolion i ymgymryd ag ef.

- Holodd yr aelodau beth oedd **dysgu amrywiaeth ddiwylliannol** yn ei olygu yn ymarferol. Atebodd y Prif Arolygydd ei fod a wnelo â gwybod pwy ydych chi ac ymhle y mae eich gwreiddiau. Wrth graidd y mater ynglyn ag amrywiaeth, roedd angen i blant sy'n mynychu ysgolion cyfan gwbl wyn fod yn ymwybodol eu bod yn byw mewn cymdeithas o ddiwylliannau amrywiol.
- Codwyd cwestiwn gan yr Aelodau pa un a oedd y **stoc adeiladau ysgol** a godwyd yng nghyfnod Fictoria wedi para'n well na'r adeiladau a godwyd yn y 50au a'r 60au ac a oedd rhai prifathrawon yn treulio gormod o amser ar broblemau adeiladau ar draul materion eraill. Atebodd y Prif Arolygydd fod cragen rhai adeiladau Fictoraidd wedi sefyll prawf amser, a chytunai hefyd fod rhai prifathrawon yn treulio gormod o amser ar broblemau adeiladau, ond fod hyn yn rhan o fater ehangach yn ymwneud â defnyddio amser staff yn fwy effeithiol. Credai'r Prif Arolygydd yn bendant mai dysgu ddylai athrawon ei wneud, yn gyntaf ac yn bennaf.
- Cododd yr Aelodau fater **cynhwysiant cymdeithasol** a sut y gellid cynyddu'r gyfradd presenoldeb. Dywedodd y Prif Arolygydd fod yna lawer o arferion da i'w hefelychu o ysgolion yng Nghymru sydd wedi llwyddo i wella cyfraddau presenoldeb. Roedd rhai ysgolion yn cysylltu â'r rhieni cyn gynted ag y deuai absenoldeb i'r amlwg.
- Roedd yr Aelodau'n pryderu ynglyn â'r **tangyflawni ymysg bechgyn** mewn ysgolion a'r diffyg gwelliant yn y maes hwn er 1996. Atebodd y Prif Arolygydd y dylai cynyddu lefelau llythrennedd fod yn ganolog mewn unrhyw strategaeth wella a bod yna rywfaint o dystiolaeth fod hyn yn gwella mewn ysgolion cynradd. Nid oedd Estyn wedi sefydlu strategaeth genedlaethol i gywiro'r tangyflawni ymysg bechgyn ond roedd yn meithrin dealltwriaeth gynyddol o'r ystyriaethau pwysig. Efallai mai'r Comisiwn Cyfle Cyfartal fyddai'r corff gorau i lunio unrhyw strategaeth i gywiro tangyflawni. Dywedodd y Gweinidog fod prifathrawon sy'n rhoi pwyslais ar gymwysterau galwedigaethol yn cael canlyniadau cadarnhaol yn y maes hwn.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynglyn ag **effeithiolrwydd y polisi cydraddoldeb** o fewn ysgolion a pha un a yw ysgolion yn cydymffurfio â deddfwriaeth anghenion arbennig ac anabledd, atebodd Estyn fod polisïau cyfle cyfartal wedi'u sefydlu, ond mai'r peth pwysicaf yw sicrhau bod cydraddoldeb yn realiti mewn ysgolion.
- Holodd yr Aelodau a oedd staff arolygu o'r tu allan i Gymru yn cael eu gwneud yn ymwybodol o natur ddwyieithog llawer o ysgolion Cymru. Sicrhaodd y Prif Arolygydd yr Aelodau fod pob arolygydd yn cael ei wneud yn ymwybodol o'r cyd-destun yng Nghymru.
- Gofynnwyd i gynrychiolwyr Estyn beth oedd yr agweddau pwysicaf yn **llythyr cylch gorchwyl blynyddol** y Gweinidog yn eu barn nhw ac a oedd unrhyw faterion pwysig wedi eu gadael allan o'r llythyr eleni. Atebodd y Prif Arolygydd fod y Gweinidog yn ymgynghori ag Estyn ynglyn â chynnwys y llythyr cylch gorchwyl a pha flaenoriaethau sy'n briodol yn ei farn ef. Roedd canfyddiadau Estyn un flwyddyn wedi dylanwadu ar yr hyn a gafodd ei gynnwys yn eu cylch gorchwyl ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Un o'r darnau pwysicaf o waith y byddai Estyn yn ymgymryd ag ef dros y flwyddyn i ddod oedd hwnnw yn ymwneud â'r agenda Ysgolion Rhagorol ar gyfer yr 21ain Ganrif.
- Holodd yr Aelodau am farn Estyn ynglyn â datblygu **Cynlluniau Strategol Addysg** fel arf cynllunio defnyddiol. Dywedodd y Prif Arolygydd fod yna le i Estyn edrych ar resymoli'r gwaith cynllunio a wneir ar lefel awdurdodau addysg lleol, ond nid oedd hon ond yr ail flwyddyn ers cyflwyno'r cynlluniau strategol ac roedd rhywfaint o welliant i'w weld yn barod. Roedd yn bwysig fodd bynnag nad oedd y cynlluniau hyn yn mynd yn feichus.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynglyn ag ansawdd a chwmpas y **gwasanaeth ymgynghorol i athrawon** yng Nghymru, dywedodd Estyn nad oeddynt ond newydd ddechrau edrych ar y mater hwn ac nad oeddynt, felly, mewn sefyllfa i gynnig barn bendant.
- Holodd yr Aelodau ynglyn â **phrofiad a throsiant staff Estyn**. Atebodd y Prif Arolygydd y byddai gan bob arolygydd y profiad angenrheidiol yn y meysydd y gofynnid iddynt eu harolygu. O ran niferoedd staff a'r trosiant, roedd Estyn yn cyflogi 54 o arolygwyr ar hyn o bryd; roedd 7 wedi ymadael yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf ond, dros yr un cyfnod, roedd 10-12 o bobl wedi'u

recriwtio.

- Roedd yr Aelodau yn pryderu a oedd yna unrhyw dystiolaeth fod athrawon yn canolbwyntio'n rhy gul ar **brawf Cyfnod Allweddol 2**. Atebodd y Prif Arolygydd fod yna dystiolaeth fod yr addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2 yn well ym mlynyddoedd 5 a 6 nag ym mlynyddoedd 3 a 4.
- O ran **amser cyhoeddi adroddiadau arolygu AALl**, dywedodd Estyn ei fod yn raddol yn lleihau'r bwlch rhwng yr amserau cyhoeddi disgwyliedig a gwirioneddol. Roedd yr amser cyhoeddi disgwyliedig oddeutu tri mis erbyn hyn; roedd hyn wedi cynyddu am fod pob adroddiad yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog bellach.
- Mynegwyd pryder gan Aelodau ynglyn â **morâl athrawon** cyn arolygiad ysgol. Dywedodd y Prif Arolygydd fod Estyn wedi ymgynghori ynghylch y mater hwn ac wedi canfod bod yna lawer iawn o gytuno ynglyn â'r prosesau dan sylw. Roedd Estyn yn y broses o gwblhau canlyniadau terfynol yr ymarferiad ymgynghori a gobeithiai y byddai hyn yn mynd ran o'r ffordd tuag at leddfu ofnau staff.

1. Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Arolygydd am gyflwyno adroddiad teg a chytbwys. Dywedodd y Gweinidog y byddai'r dystiolaeth a oedd wedi'i chynnwys yn adroddiad y Prif Arolygydd yn dylanwadu ar ei hagenda hi ac ar agenda'r Pwyllgor.

**Eitem Pedwar: Adolygiad Polisi – Y Gymraeg mewn Addysg**

***Papurau: ELL 06-02(p.3) ac ELL 06-02(p.4)***

1. Siaradodd Helen Prosser a Cennard Davies ar bapur ELL-6-02(p.3) gan dynnu sylw at y materion canlynol:

- Mae dysgu Cymraeg i Oedolion wedi cael ei ystyried yn dipyn o wasanaeth sinderela yn y gorffennol, ond rhaid iddo fod wrth graidd unrhyw strategaeth iaith a fwriedir i wrthdroi'r symudiad iaith.
- Gall oedolion ddod yn siaradwyr Cymraeg mewn cyfnod llawer byrrach na phlant – dwy i chwe blynedd.
- Mae llai na 60 o diwtoriaid yng Nghymru yn dysgu Cymraeg i oedolion yn llawn-amser. Roedd yna 700 o diwtoriaid rhan-amser, ond o dan y system bresennol mae llawer yn ei chael hi'n amhosibl creu gyrfa iddynt eu hunain.
- Roedd dysgwyr ar y llwybr dilyniant Cymraeg i Oedolion yn cael rhwng 300 a 600 awr o hyfforddiant; roedd hyn yn cymharu â 1500 i 1800 o oriau yng Ngwlad y Basg.
- Roedd angen i'r Cynulliad unioni'r anghydraddoldeb sy'n bodoli rhwng y fformiwlâu cyllido Cymraeg i Oedolion a Saesneg i Oedolion.
- Roedd ysgolion meithrin a dilyniant ôl-16 yn feysydd yr oedd yn rhaid rhoi rhagor o sylw iddynt.
- Roedd angen strategaeth genedlaethol i helpu pobl i ddod yn ddwyieithog ond, ochr yn ochr â hyn, rhaid i'r Cynulliad fuddsoddi mewn adnoddau priodol a bwrw iddi i wneud yr agenda Cymraeg i Oedolion drwyddi draw yn agenda broffesiynol.

1. Tynnodd Dr Cen Williams o Brifysgol Bangor sylw at y materion canlynol yn ELL-06-02(p.4):

- Rhaid rhoi cyfle cydradd i bob plentyn yng Nghymru i ddod yn ddwyieithog;
- Tynnodd Dr Williams sylw at y prosiect trochi diweddar a gynhaliwyd yn Ysgol Maes Garmon, yr Wyddgrug. Amlinellir manylion y prosiect yn Atodiad A at ei bapur;
- Tynnwyd sylw hefyd at bwysigrwydd modelau dysgu dwyieithog a ‘thrawsieithu’;
- Gallai pob ysgol uwchradd ddwyieithog yng Nghymru ddefnyddio'r sefyllfa drochi ddiweddar. Roedd

gan yr ysgolion hyn y staff i allu gweithredu'n gyflym yn y maes hwn;

- Roedd yna hefyd gyfleoedd i ymestyn addysg cyfrwng Cymraeg i mewn i ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg. Gan fod y Gymraeg yn bwnc craidd yn holl ysgolion cynradd Cymru, roedd yna sylfaen gref yn y rhan fwyaf o ardaloedd y gellid datblygu arni; ac
- Roedd angen diffiniad o'r hyn a olygir gan "ddysgu dwyieithog". Roedd yna ysgolion arloesol yng Ngwynedd a oedd yn hyrwyddo dwyieithrwydd drwy ddysgu uniaith lle'r oedd y plant yn dysgu rhan o'u cyrsiau yn y Gymraeg a rhan yn y Saesneg.

1. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Mewn ymateb i gwestiwn ynglyn â pham yr oedd y fformiwla i gyllido Cymraeg i Oedolion yn wahanol i'r fformiwla gyllido Saesneg, atebodd Dr Prosser eu bod yn gweithio yn unol â fformiwla a bennwyd gyntaf pan gafodd y Cyngor Cyllido Addysg Bellach ei sefydlu;
- Mewn ymateb i gwestiwn ynglyn â pham yr oedd y Consortia yn rhoi cymaint o bwyslais ar yr angen am diwtoriaid amser llawn, cytunodd Dr Davies fod staff rhan-amser yn ymroddgar a bod ganddynt rôl i'w chwarae, ond roedd yna angen clir i helpu tiwtoriaid i naddu dilyniant gyrfaol yn y maes hwn. Yn ogystal, roedd angen telerau ac amodau cyflogaeth tecach, yn cynnwys tâl gwyliau a sicrwydd swydd, ar lawer o diwtoriaid.
- Gofynnwyd i Dr Williams am esboniad pellach o sut y byddai ‘trawsieithu’ yn gweithio yn ymarferol. Dywedodd mai nod ‘trawsieithu’ oedd datblygu dwyieithrwydd pob disgybl o fewn y dosbarth a chaniatáu ar gyfer symud yn systematig o un iaith i'r llall. Nid dull o gyfieithu oedd ‘trawsieithu’, ond ffordd o atgyfnerthu'r ddwy iaith;
- Gofynnodd yr Aelodau a oedd y Consortia yn ystyried y system Cymraeg i Oedolion yn gyfrwng i gynyddu nifer yr athrawon dwyieithog yn y gyfundrefn addysg. Teimlai Dr Davies fod yna botensial enfawr i wneud hyn, ond fod angen cynnydd mewn adnoddau i alluogi hyn i ddigwydd. Ychwanegodd Dr Williams y dylai'r system fod yn gynaliadwy ac mae'r Colegau Addysg Bellach sydd â'r cyfrifoldeb pennaf am ddatblygu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Holodd yr Aelodau ai strategaeth genedlaethol ar ddysgu oedolion oedd y ffordd orau ymlaen o gofio bod yna wahaniaethau enfawr yn y continwwm Cymraeg ledled Cymru. Atebodd Dr Davies fod ysgolion dwyieithog yn aml yn cael eu sefydlu drwy hap a damwain fel petai, drwy frwdfrydedd unigolion yn aml. Roedd angen fframwaith clir neu gyfres o ganllawiau yn y maes hwn.
- Cwestiynai'r Aelodau hefyd a oedd angen codi rhwydwaith o ganolfannau pwrpasol ar gyfer cyrsiau dysgu oedolion o gofio nad oes defnydd llawn yn cael ei wneud o lawer o adeiladau ysgolion a cholegau gyda'r nos. Atebodd Dr Prosser ei bod yn bosibl creu canolfannau iaith o fewn adeiladau presennol. Ychwanegol Dr Davies fod nifer o awdurdodau lleol yn ystyried y syniad o sefydlu ysgolion cymunedol, a fyddai'n dod â phlant ac oedolion ynghyd mewn amgylchedd dysgu.

1. Trafododd y Pwyllgor yn fyr y diffiniad o "Gymru Ddwyieithog" a gynigiwyd gan Huw Lewis ac a fabwysiadwyd yn ddiweddar gan y Pwyllgor Diwylliant. Cytunodd y Pwyllgor yn unfrydol â'r diffiniad hwn:

***"Mewn Cymru wirioneddol ddwyieithog bydd y Gymraeg a'r Saesneg yn ffynnu ac yn cael eu trin yn gydradd. Mae Cymru ddwyieithog yn golygu gwlad lle gall pobl ddewis byw eu bywydau drwy gyfrwng y naill iaith neu'r llall neu'r ddwy iaith; gwlad lle bo presenoldeb dwy iaith genedlaethol, ac ieithoedd a diwylliannau amrywiol eraill, yn ffynhonnell balchder a chryfder i bawb ohonom."***

**Eitem Pump: Cofnodion y cyfarfod blaenorol, 6 Mawrth 2002**

***Papur: ELL 05-02(mins)***

5.1 Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2002. *[Cadarnhaodd Janice Gregory ei bod yn bresennol yn y cyfarfod hwn. Roedd y gwall wedi ei gywiro cynt yn y cofnod swyddogol].*

**Papurau i'w Nodi**

Roedd yna dri phapur i'w nodi:

- Datganiad y Gweinidog i'r Cyfarfod Llawn ar galedi myfyrwyr; **ELL 06-02(p.5)**
- Datganiad y Gweinidog i'r Cyfarfod Llawn ar addysg uwch; **ELL 06-02(p.6)**
- Adroddiad Catrin Redknap ar ymweliadau ag ysgolion uwchradd yn y gogledd, tystiolaeth bellach ar gyfer yr adolygiad polisi ar yr iaith Gymraeg; **ELL 06-02(p.7)**

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mawrth 2002**